

Llawlyfr Dewisiadau

ENW/NAME:

TIWTOR / TUTOR:

*Ysgol Eifionydd
Porthmadog*

**Options Handbook
June 2016**

Rhagair / Foreword

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Llawlyfr hwn i sylw disgyblion Blwyddyn 9 a'u rhieni / gwarchodwyr, gan obeithio y bydd o gymorth wrth i ni gydweithio i benderfynu ar gyrsiau'r disgyblion. Diolchaf i bawb a fu'n cynorthwyo i gynhyrchu'r Llawlyfr yma.

Gofynnwn i ddisgyblion mewn ymgynghoriad â'u rhieni / gwarchodwyr a'u hathrawon ddewis un cwrs o bob colofn ddewis ar y Ffurflen Ddewisiadau a geir ar ddiwedd y Llyfryn. Ceir manylion pellach yn y Llyfryn am bob un o'r pynciau sy'n cael eu cynnig gan yr ysgol.

Mae'n bwysig sylweddoli bod y cyrsiau yn parhau dros ddwy flynedd ac felly bod angen ymdrech gyson ym mlynnyddoedd 10 ac 11 er mwyn sicrhau llwyddiant. Bydd y disgyblion sydd wedi cyrraedd y safon angenrheidiol yn y gwahanol bynciau yn sefyll arholiadau allanol a/neu asesiadau allanol.

I am pleased to present this Handbook for the attention of Year 9 pupils and their parents / guardians, trusting that it will be of assistance as we work together to decide on the pupils' courses. I thank everyone associated with the production of this Handbook.

We ask pupils to select, in consultation with parents / guardians and teachers, one course from each of the option columns on the Option Form found at the end of the Handbook. Further details are provided in the handbook about each subject that is offered by the school.

It is imperative to realise that the courses are a full two year commitment and that consistent effort will be required over years 10 and 11 in order to ensure success. Pupils who reach the required standard in the various subjects will face external examinations and/or external assessments.

Dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol /
Accept my best wishes for the future.

Dewi Bowen
Pennaeth / Headteacher

Mawrth / March, 2016

Pa ddewis sydd gen i? What can I choose?



Ym mlynnyddoedd 10 ac 11 yn Ysgol Eifionydd bydd yn rhaid i chwi ddilyn y Cwricwlwm Craidd ynghyd â 3 phwnc dewisol o'ch dewis eich hunain.

Mae'r cwricwlwm craidd yn cynnwys:	▶	CYMRAEG
	▶	SAESNEG
	▶	MATHEMATEG a MATHEMATEG RHIF
	▶	GWYDDONIAETH
	▶	ADDYSG GORFFOROL
	▶	ADDYSG GREFYDDOL
	▶	ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL
	▶	BAC

MAE'N BWYSIG:

1. Darganfod popeth am y pwnc cyn ei ddewis. **Unwaith mae'r cwrs wedi dechrau ni fydd yn bosib newid pwnc.**
2. Trafod gyda'ch athrawon - ganddynt hwy y mae'r wybodaeth sydd ei angen arnoch;
3. Trafod gyda'ch rhieni.

In years 10 and 11 at Ysgol Eifionydd you will have to follow the core curriculum and 3 optional subjects which you yourselves will have chosen.

<i>The core curriculum Includes:</i>	▶	WELSH
	▶	ENGLISH
	▶	MATHEMATICS and MATHEMATICS NUMERACY
	▶	SCIENCE
	▶	PHYSICAL EDUCATION
	▶	RELIGIOUS EDUCATION
	▶	PERSONAL AND SOCIAL EDUCATION
	▶	BAC

IT IS IMPORTANT TO:

- 1) *Find out everything about the subject before choosing it.
Once you have started the course you will have to stick with it for two years.*
- 2) *Discuss with your teachers who have all the information needed.*
- 3) *Discuss with your parents.*

Gyrfaoedd / Careers



Mae rhaglen Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith gynhwysfawr yn cael ei chynnig gan yr ysgol mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru, Coleg Meirion Dwyfor a chyflogwyr. Ein bwriad yw helpu'r disgyblion i:

- Wella eu hunan-ymwybyddiaeth a datblygiad personol
- Fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa mewn byd gwaith ac addysg 16+
- Ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu gyrfa.

Fel rhan o'r rhaglen cynigir:

- Gweithdai e.e. Menter a Sgiliau
- Ffug Gyfweliadau
- Ymweliadau â'r coleg
- Cyfweliadau gyrfaoedd gyda Chynghorydd Gyrfa
- Paratoad ar Opsiynau 14+ a 16+
- Siaradwyr allanol e.e. cyflogwyr a chynrychiolwyr colegau
- Gyrfa Cymru.com

Mae'r ysgol wedi derbyn Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru am ansawdd ei rhaglen Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd. Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd cyfraniad rhieni i'r agwedd yma o ddatblygiad eu plentyn ac mae croeso i rieni gysylltu â'r Cyd-Gysylltydd Gyrfaoedd, Mr. Roger Vaughan os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu ofidiau.

The school offers a comprehensive programme for Careers Education and Guidance and Work Related Education in partnership with Careers Wales, Coleg Meirion Dwyfor and employers. Our intention is to help pupils to:

- *Improve their personal development and self-awareness*
- *Be aware of the career opportunities in the world of work and 16+ education*
- *Develop the necessary skills for career development*

The following is offered as part of the programme:

- *Workshops e.g. enterprise and skills*
- *Mock interviews*
- *Visits to colleges*
- *Interviews with a Careers Advisor*
- *Preparation for options 14+ & 16+*
- *Guest speakers e.g. employers and college representatives*
- *Careers Wales.com*

The school has received the Careers Wales Quality Award for Careers Education and Guidance. The school recognises the importance of the contribution of parents to this aspect of their child's development and parents are welcome to contact the school Careers Co-ordinator, Mr. Roger Vaughan if they have any queries or concerns.

Bydd Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer addysg uwch, byd gwaith a bywyd. Bydd yn cael ei hastudio ynghyd â dewisiadau traddodiadol TGAU dysgwyr neu ar y cyd â chymwysterau galwedigaethol.

Bydd Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn canolbwyntio'n glir ar y sgiliau canlynol:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn feiriadol a datrys problemau
- Cynllunio a threfnu
- Creadigrwydd ac arloesi
- Effeithiolrwydd personol

Bydd dysgwyr yn datblygu ac yn defnyddio'r sgiliau hyn, a bydd y sgiliau'n cael eu hasesu trwy gwblhau prosiect unigol a thair 'her'.

- Her dinasyddiaeth fyd eang
- Her menter a chyflogadwyedd
- Her gymunedol

Mae'r BAC gyfwerth ac un TGAU ac fe fydd yn cael ei raddio.

The new Welsh Baccalaureate will help learners develop the skills they will need for college, university, employment and life. It will be studied alongside learners' traditional choices at GCSE or vocational qualifications.

The revised Welsh Baccalaureate will have a clear focus on the following skills.

- Literacy
- Numeracy
- Digital literacy
- Critical thinking and problem-solving
- Planning and organisation
- Creativity and innovation
- Personal effectiveness

Learners will develop and use these skills, and the skills will be assessed, by completing an individual project and three 'challenges'.

- Global citizenship challenge
- Enterprise and employability challenge
- Community challenge

The BAC will be graded and is worth one GCSE.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â / For further information contact:

Mr. Roger Vaughan

Cynnwys / Contents

Rhagair / Foreword.

Pa ddewis sydd gen i / What can I choose?

Gyrfaoedd / Careers.

Bagloriaeth Cymru / Welsh Baccalaureate

<p>Pynciau Craidd TGAU a Llwybrau Mynediad</p> <p>Core Subjects GCSE and Learning Pathways</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cymraeg / Welsh • Cymraeg Llenyddiaeth / Welsh Literature • Cymraeg Ail Iaith / Welsh Second Language • Saesneg Iaith / English Language • Saesneg Llenyddiaeth / English Literature • Mathemateg a Rhifedd / Mathematics and Numeracy • Gwyddoniaeth A (BI.10/BI.10/11) / Science A (Yr.10/Yr.10/11) • Gwyddoniaeth Ychwanegol (BI.11) /Additional Science (Yr 11) • Dyfarniad Lefel 1 / 2 CBAC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol. / WJEC Level 1 / 2 Award in Applied Science
<p>Pynciau Dewis TGAU neu BTEC</p> <p>Optional Subjects GCSE or BTEC</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bwyd a Maeth / Food and Nutrition • Datblygiad Plentyn / Child Development • Dylunio a Thechnoleg Defnyddiau Gwrthiannol / Design and Technology Resistant Materials • TGAU mewn Cyfrifiadureg / GCSE in Computer Science • Addysg Grefyddol / Religious Education • Daearyddiaeth / Geography • Hanes / History • Celf / Art • Cerdd / Music • Addysg Gorfforol / Physical Education • Ffrangeg / French • Peirianeg / Engineering BTEC • Adeiladwaith BTEC/Construction BTEC (Ysgol Ardudwy) • Drama TGAU/GCSE (Ysgol Ardudwy) • Amaethyddiaeth Lefel 2 / Agriculture Level 2 / Diwydiannau'r Tir (Tystysgrif Lefel 1) / Land-based (Level 1 Certificate) (Glynllifon) • Tystysgrif Cyntaf BTEC mewn Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol Digidol / BTEC First Certificate in Media Production (Pwllheli) • Tystysgrif Cyntaf BTEC mewn Peirianeg / BTEC First Certificate in Engineering (Pwllheli)

Dewisiadau Blwyddyn 10, 2016 – 2018.

Year 10 Options, 2016 – 2018.

TGAU Cymraeg - Iaith



Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r fanyleb TGAU Cymraeg yn ceisio sicrhau bod y myfyrwyr yn cael cyfle i:

- arddangos sgiliau llafaredd (siarad a gwranddo), darllen ac ysgrifennu sy'n hanfodol wrth gyfathrebu ag eraill yn hyderus, yn effeithiol, yn gywir ac yn briodol;
- arddangos eu medrusrwydd wrth gael gafael ar wybodaeth neu ei hadfer o amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig a dynamig/digidol, gan feithrin dealltwriaeth gyffredinol o'r testun, crynhoi a chyfuno'r cynnwys, deall yr ystyr a fwriadwyd a gwerthuso ei ddiben;
- deall patrymau, strwythurau a chonfensiynau iaith lafar ac ysgrifenedig;
- deall effaith amrywiadau mewn iaith, dethol ac addasu eu llafaredd a'u hysgrifennu yn ôl sefyllfaoedd, dibenion a chynulleidfaoedd gwahanol, datblygu eu sgiliau er mwyn diwallu eu hanghenion personol eu hunain yn ogystal ag anghenion cyflogwyr ac addysg bellach fel y gallant gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a'r byd gwaith;
- datblygu sgiliau rhesymau geiriol a'u gallu i feddwl mewn ffordd adeiladol a beirniadol wrth ymateb i destunau ysgrifenedig a digidol/dynamig;
- datblygu sgiliau prawf ddarllen a golygu;
- caffael y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer astudio pellach, gan gynnwys astudio Cymraeg ar Lefel 3 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

Sut fyddai'n dysgu?

- Bydd tair gwers yr wythnos.
- Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau llafar darllen ac ysgrifennu.
- Byddwch yn gwneud llawer o'r gwaith law yn llaw â'r gwaith llên.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Uned 1: Asesiad Diarholiad - Llafar – 30%

Tasg 1 (15%) – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil a all gynnwys ymateb i gwestiynau ac adborth wedi'u seilio ar themâu gosod gan CBAC.

Tasg 2 (15%) – Ymateb a Rhyngweithio.

Tasg grŵp yn seiliedig ar sbardunau ysgrifenedig a/neu weledol a ddarperir gan CBAC i symbylu trafodaeth.

Ar gyfer y ddwy dasg dyfernir hanner y marciau am gynnwys a threfn a'r hanner arall am gywair priodol, cywirdeb gramadegol ac ystod o strwythurau brawddegol.

Asesiadau Terfynol (Allanol)

2 arholiad ysgrifenedig :

Uned 2: Darllen ac Ysgrifennu

Disgrifio, Naratif ac Esbonio – 35% - (2 awr)

Bydd dwy adran i'r arholiad yma:

Adran A – Darllen (15%)

Adran B – Ysgrifennu (20%)

Uned 3: Darllen ac Ysgrifennu

Trafod, Perswad a Chyfarwyddiadol – 35% (2 awr)

Bydd dwy adran i'r arholiad yma:

Adran A – Darllen (15%)

Adran B – Ysgrifennu (20%)

Dyfernir hanner y marciau yn yr adran hon am gyfathrebu a threfn (ystyr, pwrpasau, darllenwyr a strwythur) a'r hanner arall am ysgrifennu'n gywir (iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu).

Pa bryd?

Bydd y ddwy arholiad yn digwydd ar ddiwedd y cwrs yn Haf Bl.11.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs. Eirian M. Roberts

GCSE Welsh - Language



What does the course offer me?

The Welsh GCSE specification attempts to ensure that the students are given the opportunity to:

- Display oral (talking and listening), reading and writing skills which are essential when communicating with others confidently, effectively, accurately and appropriately;
- Display the ability to obtain or retrieve information from a wide variety of written and dynamic/digital sources, thus gaining general understanding of the text, of summarising and combining its contents, understanding the intended meaning and evaluating its purpose;
- Understand language patterns, structures and conventions – both oral and written – and understand the impact of linguistic variations, select and adapt them accordingly and record them in writing to suit different situations, purposes and audiences, develop their skills in order to fulfil their own personal needs as well as the requirements set by employers and further education so that they can participate fully in society and in the world of work.
- Develop oral reasoning skills and the ability to think constructively and critically when responding to written and digital/dynamic texts
- Develop proof reading and editing skills;
- Procure the necessary skills for further study, including studying Welsh at Level 3 of the National Qualifications Framework

How will I learn?

- You will receive three lessons per week.
- The course is a mixture of oral, reading and writing tasks.
- You will do much of the work hand in hand with the literature work

How will I be assessed?

Unit 1: Non-examination Assessment - Oral – 30%

Task 1 (15%) – Singular Presentation Based on Research which can include response to questions and feedback based on themes set by the WJEC.

Task 2 (15%) – Response and Interaction

A group task based on written and/ or visual impulses provided by the WJEC and aimed at promoting discussion

For these two tasks, half the marks will be allocated for content and order and the other half for the appropriate tone, grammatical accuracy and a variety of sentence structures.

Final Assessments (External)

2 written examinations:

Unit 2: Reading and Writing

Descriptive, Narrative and Explanatory –
35% - (2 hours)

This examination will be in two sections:

Section A – Reading (15%)

Section B – Writing (20%)

Unit 3: Reading and Writing

Discussion, Persuasion and Instruction -
35% (2 hours)

This examination will be in two sections:

Section A – Reading (15%)

Section B – Writing (20%)

Half the marks in this section will be allocated for communication and order ((meaning, purposes, readers and structure) and the other half for correct writing (language, grammar, punctuation and spelling)

When?

Both examinations will take place at the end of the course in the summer of Year 11

For further information, contact: Mrs. Eirian M. Roberts

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'n rhaid i ymgeiswyr astudio'r canlynol o Lenyddiaeth Gymraeg:

- Barddoniaeth
- Rhyddiaith
- Drama
- Llenyddiaeth fel ffilm (llunyddiaeth)

Rhoddir cyfle i ymgeiswyr:

- ddeall ac ymateb i amrywiaeth o ddeunydd llenyddol drwy ddarllen yn eang gan gynnwys rhai testunau allweddol ac astudio'n fanwl enghreifftiau o lenyddiaeth o wahanol gyfnodau, a thrwy hynny feithrin ymwybyddiaeth o'r etifeddiaeth lenyddol;
- ymateb i gyflwyniadau llenyddol a gynhyrchir ar gyfer y cyfryngau;
- arddangos dealltwriaeth o'r ffyrdd y defnyddir iaith gan awduron er mwyn cael effaith;
- arddangos gallu i ymateb yn effeithiol, gan ddefnyddio mynegiant a geirfa briodol, mewn amrywiaeth o waith llafar ac ysgrifenedig.

Bydd mwyafrif y gweithiau a astudir yn destunau llenyddol a ysgrifennwyd yn y Gymraeg yn wreiddiol, er y ceir rhai addasiadau. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr ddysgu am dreftadaeth lenyddol Cymru.

Rhaid i ymgeiswyr ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Sut fyddai'n dysgu?

Bydd tair gwrs yr wythnos ac fel arfer mae dwy o'r rheiny yn ymwneud â gwaith llên. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau llafar – (gwyllo a gwrando) darllen ac ysgrifennu.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Uned 3 - Aseiad Diarholiad: Tasgau ysgrifenedig (25%)

Tasg 1 Straeon byrion – gwerthfawrogi rhyddiaith.

Tasg 2 Drama – dehongli testun yn greadigol.

Pa bryd? – yn ystod y ddwy flynedd.

Uned 1 – Barddoniaeth (25%)

Papur Ysgrifenedig 1¼ awr

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr werthfawrogi a chymharu un o'r cerddi gosod â cherdd nas astudiwyd o'r blaen.

Yr Haen Uwch yn astudio 10 cerdd osod.

Yr Haen Sylfaenol yn astudio 6 cerdd osod.

Pa bryd? - Ym mlwyddyn 10 a tymor cyntaf Bl.11.

Bydd yr arholiad yn Ionawr Bl.11 a chyfle i ail sefyll yn yr haf os oes angen.

Uned 4 – Llunyddiaeth: Arholiad Llafar (25%) - tua 20 munud i bob grŵp.

Llunyddiaeth – Caiff yr ymgeiswyr eu harholi mewn grwpiau o dri ar destun llunyddol.

Pa bryd? – mis Ebrill ym Mlwyddyn 11.

Uned 2 – Nofel (25%)

Papur Ysgrifenedig: 1¼ awr

Cwestiynau wedi'u strwythuro ar y testunau gosod.

Bydd y gwaith ar y nofel yn digwydd ym mlwyddyn 11.

Bydd yr arholiad yn digwydd ar ddiwedd cwrs ym mis Mai/Mehefin Bl.11.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs. Eirian M. Roberts

GCSE Welsh - Literature



What does the course offer me?

Students must study the following aspects of Welsh Literature:

- Poetry
- Prose
- Drama
- Visual Literature (screen/film literature)

Students will be given the opportunity to:

- Understand and respond to a variety of literary material by reading widely, including some key texts and through detailed study of literature from different periods and thus achieve an awareness of the literary heritage;
- Respond to literary presentations produced for the media;
- Display an understanding of how language is used by authors in order to create effect;
- Display an ability to respond effectively and to use appropriate expression and vocabulary with regard to various oral and written works.

The majority of the works studied will be literary works originally written in Welsh, although some adaptations might be included. Students will be given an opportunity to learn about the literary heritage of Wales.

Applicants must respond in Welsh – in both oral and written work.

How will I learn?

- There will be three lessons per week and as a rule, two of these will deal with literature.
- The course is a mixture of oral tasks – (watching and listening) reading and writing

How will I be assessed?

Unit 3 – Non-examination Assessment: Written Tasks (25%)

Task 1 Short stories – prose appreciation.
Task 2 Drama – creative interpretation of a subject.

When? – during the course of the two years.

Unit 1 – Poetry (25%) Written Paper 1¼ hours

Students will be expected to write an appreciation of one of the set poems and to compare it with a poem not previously studied.

At Higher Level, 10 set poems are studied
At Basic Level, 6 set poems are studied.

When? - During Year 10 and the first term of Year 11.

The examination will take place in January Year 11 with a resit in the summer should that be necessary.

Unit 4 – Visual Literature: Oral Examination (25%) – approx. 20 minutes for each group.

Visual Literature – Applicants will be examined in groups of three on a visual subject

When? – In April of Year 11.

Unit 2 – Novel (25%) Written Paper: 1¼ hours

Structured questions on the set subjects.
The work on the novel will take place in Year 11.

The examination will take place at the end of the course in May/June of Year 11

For further information, contact: Mrs. Eirian M. Roberts

TGAU Cymraeg – Ail Iaith



Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r fanyleb TGAU cwrs llawn mewn Cymraeg Ail Iaith yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfle i:

- ddangos diddordeb, pleser a brwdfrydedd wrth astudio'r Gymraeg;
- cyfrannu'n sylweddol i drafodaethau, gan ddefnyddio iaith sy'n addas i'r pwrpas a'r gynulleidfa;
- ymateb i ystod lawn o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys peth deunydd cyhoeddedig;
- ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, gan roi sylw i bwrpas, cynulleidfa a chywirdeb.

Sut fyddai'n dysgu?

- Bydd tair gwers yr wythnos ac meant yn gymysgedd o waith llafar / darllen ac ysgrifennu.

CYD-DESTUN A	CYD-DESTUN B
Gwyliau	Amser hamdden
Chwaraeon	Alcohol, cyffuriau ac ysmegu
Ffasiwn / siopa	Yr amgylchedd
Sêr o Gymru	Cadw'n iach a heini
Sinema / byd y ffilmiau	Teulu a ffrindiau
Canu pop	Y cartref
Gwaith elusennol / rhan amser	Penwythnos
Ardal	Y cyfryngau
Diwylliant Cymru	Technoleg
Cymru	Dathlu
Fi fy hunan	Profiadau'r ysgol
Digwyddiad arbennig	

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Uned 1 Papur Ysgrifenedig: 1 awr (25%)

Uwch a Sylfaenol

4 cwestiwn – 2 ysgrifennu (10%) 2 ddarllen (15%)

Uned 2 Aseiad dan Reolaeth (25%)

Llafaredd 20%

Tasg 1 – Cyflwyniad unigol (10%)

Tasg 2 – Sgwr Sefyllfa (10%) – Tasg pâr/grŵp

Ysgrifennu – (5%)

Gwaith ysgrifennu yn deillio o'r sgwr sefyllfa.

Uned 3 Arholiad Llafar : 10 munud (25%)

Haen Uwch a Sylfaenol

Llafaredd 20%

Arholiad llafar pâr/grŵp

Darllen 5%

Trafod deunydd darllen fel symbyliad i'r arholiad llafar.

Uned 4 papur Ysgrifenedig: 1 awr (25%) Haen Uwch a Sylfaenol

4 cwestiwn – 2 ysgrifennu (15%) 2 ddarllen (10%)

Bydd ymgeiswyr y cwrs llawn yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol, galwedigaethol a dychmygus.

Asesiad dan reolaeth

Uned 2 = Llafaredd 20%

Cyflwyniad Unigol 10%

Tasg Par / grŵp 10%

Ysgrifennu 5% - 1 awr

Cofiwch!

Bydd y gwaith cwrs a'r gwaith llafar yn elfen bwysig yn yr holl gyrsiau.

Disgwylir i'r gwaith cwrs gael ei gwblhau a'i gyflwyno erbyn y dyddiadau penodedig.

Heb y gwaith cwrs nid oes modd llwyddo yn yr arholiadau.

Anogir y disgyblion i:-

- a) brynu geiriadur Cymraeg da;
- b) wyllo rhaglenni teledu Cymraeg yn gyson;
- c) wrando ar raglenni radio Cymraeg yn gyson;
- ch) drafod materion cyfoes gyda rhieni, perthnasau, ffrindiau, athrawon;
- d) ddarllen yn eang yn y Gymraeg - llyfrau, cylchgronau, Papur Bro, Y Cymro, Golwg, taflenni gwybodaeth, cylchgronau'r Urdd.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â: **Mrs. Eirian Môn Roberts**

GCSE Welsh – Second Language



What does the course offer me?

This course is designed for pupils who have not followed the Welsh Programme of Study in Key Stage 3. The aim of the course is to provide experiences which give every candidate an opportunity to attain their own potential in the Welsh language according to his/her ability and needs and to develop candidates' skill in using the language for purposes of effective and purposeful communication.

How will I learn?

There will be three lessons each week containing a mixture of oral, reading and written work.

CYD-DESTUN A	CYD-DESTUN B
Holidays	Leisure time
Sport	Alcohol, Drugs and smoking
Fashion	The environment
Famous people from Wales	Keeping fit
Cinema / Films	Family and friends
Pop Music	The home
Part time work / Charity work	The weekend
The area	The media
Welsh culture	Technology
Wales	Celebrating
Myself	School experiences
Special occasions	

How will I be assessed?

Unit 1 – Written Exam – 25%

Reading 10%

Writing 15%

Unit 2 – Controlled Tasks – 25%

Oral 20%

Writing 5%

Unit 3 – Oral Examination – 25%

Unit 4 – Written Exam – 25%

Reading 10%

Writing 15%

The full course candidates will use Welsh in context. Social / vocational and creative.

Supervised Assessment

Unit 2 = Oral 20%

Individual Presentation 10%

Pair Tasks / Group Task 10%

Writing 5% - 1 hour

Remember!

The course work and the oral work are important elements in all the courses. Course work is expected to be completed and presented by the specified dates. Without completing the course work it is impossible to pass the examinations.

Pupils are advised to:-

- buy a good Welsh dictionary;
- regularly watch Welsh Language television programmes;
- regularly listen to Welsh Language radio programmes;
- discuss current affairs with parents, relatives, friends and teachers;
- read widely in Welsh - books, magazines, Papur Bro, Y Cymro, Golwg, information leaflets, Urdd publications.

For further information contact: Mrs. Eirian Môn Roberts

TGAU Saesneg - Iaith



Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Yn ystod y cwrs bydd cyfleoedd i ddatblygu:

- Sgiliau Darllen wrth ymateb i ryddiaith, barddoniaeth a drama.
- Sgiliau Ysgrifennu drwy gynhyrchu darnau dychmygus a ffeithiol.
- Sgiliau Llafar mewn amrywiol sefyllfaoedd.

Sut fyddai'n dysgu?

- Rhennir tair gwrs yr wythnos rhwng Saesneg Iaith a Llên.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Asesiadau wedi eu rheoli – Uned 1

Llafar 20%

- Cyfraniadau unigol estynedig.
- Trafodaeth a chydweithio mewn grŵp.

Arholiad

Uned 2 40% 2 awr – Disgrifiad, naratif neu egluro

Nifer o destunau darllen gwahanol.

Tasg ysgrifennu dychmygus neu mynegi barn / egluro.

Uned 3 40% 2 awr – Mynegi barn, dwyn perswâd neu gyfarwyddiadau

Nifer o destunau darllen gwahanol.

2 dasg ysgrifennu – un yn perswadio ac un yn dadlau.

Gwahaniaethu

Pawb yn sefyll yr un haen.

Cofiwch!

Rhaid talu sylw i'r sillafu, mynegiant ac ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa os am lwyddo yn y tasgau a osodir.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mrs. Bethan Roberts

GCSE English - Language



What does the course offer me?

This course provides opportunities to practise:

- Reading skills by responding to prose, poetry and drama.
- Writing skills by producing both imaginative and transactional pieces.
- Speaking and Listening Skills in a variety of situations.

How will I learn?

- There are three lessons a week shared between English Language and Literature.

How will I be assessed?

Controlled Assessment

Spoken Language 20% - Unit 1

- Extended individual contributions.
- Group discussion and interaction.

Examination

Unit 2 40% 2 hours – Description, narrative exposition.

A number of reading texts with questions.

One Imaginative or expository writing task.

Unit 3 40% 2 hours – Argument, persuasion or instruction.

A number of reading texts with questions.

One argumentation writing task and one persuasion writing task.

Differentiation

One untiered paper.

Remember!

Correct spelling, expression and awareness of audience will be taken into account throughout the course.

For further information contact:

Mrs. Bethan Roberts

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Cyfle i astudio:

- Rhyddiaith, barddoniaeth a drama fodern.
- Rhyddiaith, barddoniaeth a drama a ysgrifennwyd cyn 1914.

Sut fyddai'n dysgu?

Bydd tair gwrs yr wythnos, wedi eu rhannu rhwng Saesneg Iaith a Llên.

Asesiad Allanol – 35% - 2 awr

Uned 1 – Rhyddiaeth (dim o Brydain) a barddoniaeth gyfoes.

Adran A – Nofel unigol yn ei gyd-destyn.

Adran B – Cymharu dwy gerdd.

Asesiad Allanol – 40% - 2 awr.

Un a'i

Opsiwn A – Drama hŷn a barddoniaeth gyfoes.

neu

Opsiwn B – Drama Fodern a rhyddiaeth hŷn.

Asesiad wedi ei Reoli – 25%

- 1) Traethawd ar ddrama Shakespeare (12.5%)
- 2) Traethawd ar gerddi wedi eu dethol gan CBAC (12.15%)

Gwahaniaethu – Bydd dwy haen:

Haen Sylfaenol – graddau G – C neu'r

Haen Uwch – graddau D – A*

Cofiwch!

Drwy astudio Saesneg a Llên, cewch ddau TGAU!

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mrs. Bethan Roberts

GCSE English - Literature



What does the course offer me?

The chance to study:

- Modern prose, poetry and drama.
- Pre 1914 prose, poetry and drama.

How will I learn?

There are three lessons a week, shared with GCSE English Language. Coursework will be completed in Year 10. Year 11 will be devoted to studying the texts set for the examination.

How will I be assessed?

External Assessment – 35% - 2 hours

Unit 1 – Prose (different cultures) and contemporary poetry.

Section A – Individual texts in context – prose

Section B – Unseen poetry comparison.

External Assessment – 40% - 2 hours.

Either

Option A – Literary heritage drama and contemporary prose.

or

Option B – Contemporary drama and literary heritage prose.

Controlled Assessment – 25%

An essay on a Shakespeare play.

An essay on set poems specified by WJEC.

Differentiation – Candidates will be entered for either:

Foundation Tier – grades G – C or

Higher Tier – grades D – A*.

Remember!

English and Literature allow you to gain two GCSE's in 3 lessons a week.

For further information contact:

Mrs. Bethan Roberts

TGAU – Mathemateg a Rhifedd



Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r cwrs TGAU yn adeiladu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd yn Rhaglenni Astudio Cyfnod Allweddol 3. Bydd disgwyl i'r disgyblion arddangos eu gallu mewn:

- Defnyddio a chymhwyso mathemateg
- Rhif ac algebra
- Siâp, gofod a mesurau
- Trin data

Bydd y disgyblion yn sefyll **dau gymhwyster mathemateg**, sef TGAU mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd. Cynigir tair haen ar gyfer y ddau arholiad – haen uwch, haen ganolradd ac haen sylfaenol.

Sut fyddai'n dysgu?

Yng Nghyfnod Allweddol 4 ceir pedair gwrs mathemateg yn wythnosol. Cyflwynir y gwaith drwy gyfrwng amrywiaeth o brofiadau dysgu, a hefyd defnyddir nifer o strategaethau addysgu yn y gwersi. Gosodir profion cyson ar y gwaith a gyflwynwyd.

Rhoddir pwyslais ar feithrin y gallu i ymresymu'n fathemategol, ac i gyfathrebu eu dulliau ac atebion yn glir.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Bydd y ddau gymhwyster TGAU yn cael ei asesu drwy ddau bapur ysgrifenedig i'w sefyll ar ddiwedd y cwrs. Nid oes gwaith cwrs yn perthyn i'r cwrs Mathemateg.

Ar gyfer y ddau gymhwyster ni chaniateir defnyddio cyfrifiannell ar un papur tra bod angen cyfrifiannell ar gyfer y papur arall.

Bydd hyd y papurau yn amrywio rhwng 1½ awr a 2 awr.

Cofiwch!

Fe fydd y cwrs yn annog y disgyblion i feithrin agwedd bositif tuag at Fathemateg, gan gynnwys hyder, mwynhad a dyfalbarhad.

Disgwylir i ddisgyblion berchen cyfrifiannell addas ar gyfer y cyrsiau TGAU - gellir eu prynu am bris gostyngol gan yr Adran Fathemateg.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mr. Medwyn Williams

GCSE – Mathematics and Numeracy



What does the course offer me?

The GCSE course builds on the knowledge, skills and understanding developed in the Key Stage 3 Teaching Programme. Pupils will be expected to demonstrate their ability in:

- Using and applying mathematics
- Number and algebra
- Shape, space and measures
- Handling data.

Pupils will study for **two mathematics qualifications** – GCSE Mathematics and GCSE Mathematics-Numeracy. Three tiers of examination will be offered for both qualifications – the higher tier, intermediate tier and the foundation tier.

How will I learn?

In Key Stage 4 there will be four mathematics lessons weekly. A variety of learning experiences are offered and a number of teaching strategies are used. Regular tests are given on the work introduced.

Emphasis is given to the ability to reason mathematically, and to communicate their methods and answer accurately.

How will I be assessed?

Both GCSE qualifications are assessed through two written papers, to be sat at the end of the course. There is no coursework involved in the Mathematics course.

For both qualifications, a calculator is not allowed on one paper, whilst a suitable calculator is required for the other paper.

The duration of the written papers vary between 1½ hours and 2 hours.

Remember!

This course will encourage the pupils to develop a positive attitude to mathematics, including confidence, enjoyment and perseverance.

Pupils are expected to own a suitable calculator for their GCSE course – they may be bought at a discounted price through the Mathematics department.

For further information contact:

Mr. Medwyn Williams

TGAU CBAC mewn GWYDDONIAETH (Dwyradd) – dros dwy flynedd: Blwyddyn 10 – 11



Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio Gwyddoniaeth naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Mae dwy haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:

Haen Uwch – Graddau A* - D

Haen Sylfaenol – Graddau C – G

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r cwrs yn cynnig gwyddoniaeth cytbwys sy'n cynnwys agweddau o Fioleg, Cemeg a Ffiseg. Mae'r cwrs yn cynnwys 6 uned waith: Uned 1, 2 a 3 fydd yn cael eu cyflwyno ym mlwyddyn 10 ac yn cael eu arholi ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd Unedau 4, 5 a 6 yn cael eu cyflwyno ym mlwyddyn 11 ac eto yn cael eu arholi ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd yr uned olaf, Uned 7 – asesiad ymarferol yn cael ei osod yn allanol yn ystod Blwyddyn 11.

Cynnwys:

Uned 1 (Dwyradd) BIOLEG 1

Mae'r uned hon yn cynnwys y testunau canlynol:

- 1.1 Celloedd a symudiad ar draws cellbilenni
- 1.2 Resbiradaeth a'r system resbiradol mewn bodau dynol
- 1.3 Treuliad a'r system dreulio mewn bodau dynol
- 1.4 System cylchrediad gwaed mewn bodau dynol
- 1.5 Planhigion a ffotosynthesis
- 1.6 Ecosystemau ac effaith dyn ar yr amgylchedd

Uned 3 (Dwyradd) FFISEG 1

Mae'r uned hon yn cynnwys y testunau canlynol:

- 3.1 Cylchedau trydanol
- 3.2 Cynhyrchu trydan
- 3.3 Defnyddio egni
- 3.4 Trydan domestig
- 3.5 Priodweddau tonnau

Uned 5 (Dwyradd) CEMEG 5

Mae'r uned hon yn cynnwys y testunau canlynol:

- 5.1 Bondio, adeiledd a phriodweddau
- 5.2 Asidau, basau a halwynau
- 5.3 Metelau ac echdynnu metelau
- 5.4 Adweithiau cemegol ac egni
- 5.5 Olew crai, tanwyddau a chyfansoddion carbon

Uned 2 (Dwyradd) CEMEG 1

Mae'r uned hon yn cynnwys y testunau canlynol:

- 2.1 Natur sylweddau ac adweithiau cemegol
- 2.2 Adeiledd atomig a'r Tabl Cyfnodol
- 2.3 Dŵr
- 2.4 Y Ddaear sy'n newid yn barhaus
- 2.5 Cyfradd newid cemegol

Uned 4 (Dwyradd) BIOLEG 2

Mae'r uned hon yn cynnwys y testunau canlynol:

- 4.1 Dosbarthiad a bioamrywiaeth
- 4.2 Cellraniad a chelloedd bonyn
- 4.3 DNA ac etifeddiad
- 4.4 Amrywiad ac esblygiad
- 4.5 Ymateb a rheoli
- 4.6 Clefyd, amddiffyniad a thriniaeth

Uned 6 (Dwyradd) FFISEG 2

Mae'r uned hon yn cynnwys y testunau canlynol:

- 6.1 Pellter, buanedd a chyflymiad
- 6.2 Deddfau Newton
- 6.3 Gwaith ac egni
- 6.4 Sêr a phlanedau
- 6.5 Mathau o belydriad
- 6.6 Hanner oes

Uned 7 (Dwyradd) ASESIAD YMARFEROL

Yn yr asesiad hwn bydd cyfle gan y dysgwyr i ddangos eu bod yn gallu gweithio'n wyddonol. Bydd hyn yn cynnwys y defnydd o sgiliau a strategaethau arbrofol a sgiliau dadansoddi a gwerthuso.

Asesiad di-haen yw'r asesiad ymarferol a gynhelir yn ystod hanner cyntaf tymor y gwanwyn (Ionawr – Chwefror). Argymhellir cynnal yr asesiad ym mlwyddyn olaf yr astudiaeth.

Bydd CBAC, bob blwyddyn, yn darparu tair tasg yn seiliedig ar gynnwys TGAU Gwyddoniaeth (Dwyradd). Bydd hyn yn cynnwys un dasg yr un o Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Dim ond dwy dasg y mae gofyn i'r dysgwyr ei chyflwyno felly gall canolfannau ddewis pa ddwy dasg i'w defnyddio gyda'u dysgwyr.

Bydd CBAC yn marcio'r tasgau'n allanol a bydd tasgau newydd bob blwyddyn. Ar adegau priodol cyn yr asesu, bydd manylion cynllunio a gweinyddu'r asesiad ymarferol yn cael eu hanfon i'r canolfannau.

Mae dwy ran i bob tasg:

Adran A – Cael canlyniadau (6 marc)

Caniateir i ddysgwyr weithio mewn grwpiau o dri ar y mwyaf, er mwyn cael canlyniadau o ddull arbrofol fydd yn cael ei roi. Lefel gyfyngedig o reolaeth fydd yna ar gyfer y gwaith hwn h.y. gall dysgwyr gydweithio ag eraill i gael canlyniadau ond rhaid iddynt roi eu hatebion eu hunain i'r cwestiynau a osodir. Ni ddylai fod angen i'r athro roi cymorth, ond mae hynny'n cael ei ganiatáu os bydd cyfarpar yn methu. Bydd Adran A yn cael ei chwblhau mewn sesiwn 60 munud o hyd.

WJEC GCSE in SCIENCE (Double Award) - over two years: Year 10 - 11



This specification builds on subject content which is typically taught at key stage 3 and provides a suitable foundation for the study of Science at either AS or A level. In addition, the specification provides a coherent, satisfying and worthwhile course of study for learners who do not progress to further study in this subject.

There are two tiers of entry for this qualification:

Higher Tier – Grades A* - D

Foundation Tier – Grades C – G

What does the course offer me?

The course offers a balanced science which includes aspects of Biology, Chemistry and Physics. The science course consists of 6 units of work: units 1, 2 and 3 which will be taught in year 10 and examined at the end of year 10, followed by a further 3 units of work: units 4, 5 and 6 which will be taught during year 11 and examined at the end of year 11. A further 7th unit – practical assessment is set externally during year 11.

Content:

Unit 1 (Double Award) BIOLOGY 1

This unit includes the following topics:

- 1.1 Cells and movement across membranes
- 1.2 Respiration and the respiratory system in humans
- 1.3 Digestion and the digestive system in humans
- 1.4 Circulatory system in humans
- 1.5 Plants and photosynthesis
- 1.6 Ecosystems and human impact on the environment

Unit 3 (Double Award) PHYSICS 1

This unit includes the following topics:

- 3.1 Electric circuits
- 3.2 Generating electricity
- 3.3 Making use of energy
- 3.4 Domestic electricity
- 3.5 Features of waves

Unit 5 (Double Award) CHEMISTRY 2

This unit includes the following topics:

- 5.1 Bonding, structure and properties
- 5.2 Acids, bases and salts
- 5.3 Metals and their extraction
- 5.4 Chemical reactions and energy
- 5.5 Crude oil, fuels and carbon compounds

Unit 7 (Double Award) PRACTICAL ASSESSMENT

This assessment gives learners the opportunity to demonstrate their ability to work scientifically. This will include experimental skills and strategies and skills in analysis and evaluation.

The practical assessment is untiered and will take place in the first half of the spring term (January – February). It is recommended that this should be in the final year of study.

